

# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI

## LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*  
**Bethan Roberts**  
Rhif Ffôn: 01248 602131  
Ebost: [CyngorLlandygai@ogwen.org](mailto:CyngorLlandygai@ogwen.org)

26 Stryd Fawr  
Bethesda  
Gwynedd  
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor  
a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa, Mynydd Llandygai  
**Nos Iau 18 Gorffennaf 2019 am 18.30**

### PRESENNOL:

Y Cynghorydd Dafydd Owen

Y Cynghorydd Mair Leverett

Y Cynghorydd Angharad Williams

Y Cynghorydd Dafydd Roberts

Y Cynghorydd Gabrielle Wyn

Y Cynghorydd Huw P Jones

Y Cynghorydd Iwan Hywel

Y Cynghorydd Mary Hayes

Y Cynghorydd Jacob Milner

Y Cynghorydd Gwen Griffith

### 1. Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Iwan Hywel.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Mair Owen Pierce a Richard Fraser-Williams.

Cydymdeimlwn gyda'r Cyng. Mair Owen Pierce yn dilyn profedigaeth yn ddiweddar. Y Clerc i ddanfôn cerdyn cymdymdeimlad ar ran y Cyngor.

### 2. Cofnodion

**Penderfynwyd:** Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2019, yn ddarostyngedig i ddefnyddio 'Ciciwr Calon' yn lle 'Diffibriliwr'.

### 3. Materion yn codi o'r cofnodion

**3.1** Lloches bws yn mynedfa pentref Llandygai – Cyng. Richard Fraser-Williams wedi gwneud ymholiadau prisiau, ac wedi derbyn 3 amcan bris. Cyngor Gwynedd yn caniatáu y gwaith arfaethedig cyhyd bod gan y contractwr y cymwysterau angenrheidiol. Y Cyngor yn caniatáu i'r gwaith gychwyn cyn gynted a bu'r modd (*Cyng. Gwen Griffith yn datgan diddordeb*)

**3.2** Goleuadau stryd Mynydd Llandygai – problemau gyda rhai ohonynt:

14 Llwybr Main – golau dal yn fflachio;

Llwybr Main – y golau sydd ar yr arwydd 'Ildiwch' yn fflachio. Y Clerc i gael diweddariad.

**3.3** Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig – Cyng. Richard Fraser-Williams, Dafydd Owen a'r Clerc wedi cyfarfod gyda Iwan ap Trefor a'i gydweithiwr o'r adran briffyrdd i drafod canlyniadau'r arolwg. Mae gor-yrru yn amlwg yn broblem yma, gyda gyrwyr yn gyrru 36mya ar gyfartaledd. Nodwyd nifer o wahanol opsiynau, yn cynnwys defnyddio llwybr troed a twmpathau cyflymder. Iwan ap Trefor i drafod y canlyniadau gyda'i gydweithwyr yn Cyngor Gwynedd, ac i gysylltu hefo'r Cyngor ymhen chwech

- wythnos i drafod y camau nesaf. Diolchwyd i'r Cyngor. Richard Fraser-Williams, Dafydd Owen a'r Clerc.
- 3.4** Ciciwr Calon Tregarth –y Clerc wedi archebu 3 arwydd, ond nodwyd nid oedd yn bosib gosod yr arwyddion ar noson yr hyfforddiant oherwydd tywydd garw. Cyng. Dafydd Owen mewn trafodaethau gyda Swyddogion Cyngor Gwynedd ynglŷn a'u gosod ac lleoliadau priodol.
- 3.5** Y Clerc wedi derbyn ebost gan yr Adran Gynllunio ynglŷn a gosod ciciwr calon yn Neuadd Talgai, Llandygai. Nodwyd nad yw'n bosib ei leoli ar y Neuadd oherwydd ei fod yn adeilad rhestredig. Y Clerc wedi gwneud ymholiadau gyda Tomos Hughes o'r elusen Achub Calon y Dyffryn ynglŷn a'r trafferth, ac wedi trafod y posibilrwydd o'i leoli yn annibynnol o fewn cwrtill y Neuadd. Cyng. Mair Leverett i gael caniatad gan yr eglwys i'w osod yno, a'r Clerc i ddanfôn cynllun syml i'r Swyddog Cadwraeth yng Nghyngor Gwynedd i gael caniatad. Y Clerc i holi Tomos Hughes os oes bosib gael lluniau o rhywbeth tebyg.
- 3.6** Llwybr o Parc fyny at Lôn y Grug –Y Cyng. Dafydd Owen wedi cyfarfod gyda Cyng. Richard Fraser-Williams ar y safle, ac wedi cysylltu gyda swyddog Cyngor Gwynedd ynglŷn a cael arwyddion. Adroddwyd gan Cyngor Gwynedd bod y gwaith wedi cael ei gwblhau ar eu rhan gan wirfoddolwyr Cymdeithas y Cerddwyr Eryri. Y Clerc wedi diolch i'r gwirfoddolwyr ar ran y Cyngor Cymuned.
- 3.7** Bin Halen newydd yn Bro Syr Ifor – disgwyl diweddariad.
- 3.8** Carreg yn rhydd ger Min y Coed, Llandygai – Cyng. Dafydd Owen wedi hysbysu Cyngor Gwynedd.
- 3.9** Adroddwyd fod un o drigolion ardal Talybont yn glanhau ardal Talybont a Llandygai yn wirfoddol. Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi ei waith ac hoffai rhoi rhodd i ddweud diolch. Cyng. Mair Leverett i drafod ymhellach gyda'r unigolyn.
- 3.10** Adroddwyd fod y ffordd ar waelod Allt St Anns yn warthus – ebost wedi'i ddanfôn eisoes i'r holl Gyngor i hysbysu o'r gwaith arfaethedig oedd i fod i gael ei gwblhau yn ystod mis Mehefin. Adroddodd Cyng. Dafydd Owen fod y gwaith i fod i ddechrau ar y 22ain o Orffennaf.
- 3.11** Nodwyd Cyng. Gwen Griffith fod yno ddim arwyddion ar gyfer ciciwr calon Mynydd Llandygai. Cytunwyd y byddai Cyng. Richard Fraser-Williams yn cael dyfynbrisiau ar gyfer rhai tebyg i'r rhai sydd yn Nhregarth.
- 3.12** Adroddwyd bod cwynion wedi eu derbyn yngylch yr adeiladau allanol rhwng Pandy a Tan Lôn, Tregarth, llawer mwy o geir yn mynd yn ôl ac ymlaen o'r lleoliad. Y Clerc wedi cysylltu hefo'r adran Gynllunio, ond heb gael ymateb hyd yn hyn. Y Clerc i holi am ddiweddariad.
- 3.13** Neuadd Goffa Mynydd Llandygai – y Cyngor wedi rhoi rhodd o £500 tuag at costau CCTV. Derbynydd cerdyn o ddiolch ar ran y Neuadd.
- 3.14** Adroddwyd gan y Cyng. Dafydd Owen fod G Williams wedi dechrau ar y gwaith torri a glanhau llwybrau. Cyng. Dafydd Owen i holi os oes modd iddo ychwanegu'r gwaith glanhau ffosydd - llawer o ffosydd yn y plwyf angen sylw brys. Cyng. Gwen Griffith wedi danfôn manylion ar gyfer unigolyn arall a fyddai hefo diddordeb yn y gwaith.
- 3.15** Nodwyd fod yno drafferthion mawr yn yr wythnosau diwethaf gyda 'raves' yn Twnel Tywyll. Mae'r mater bellach yn ddifrifol ac yn berygl mawr. Gwydr wedi cael ei dorri ymhob man, gyda llawer o feicwyr yn cwyno am ddifrod i'w beics. Y Clerc wedi ysgrifennu at Comisiynydd y Heddlu. Nodwyd yn y cyfarfod fod yno graffiti newydd yn y twnel, y Clerc i hysbysu'r heddlu a Chyngor Gwynedd.

- 3.16** Nodwyd gan Cyng. Mair Leverett fod yno ddarn o dir yn Pentref Llandygai yn gael ei dorri gan drigolion y pentref, yn ogystal a Chyngor Gwynedd. Y Clerc wedi gofyn am rhaglen torri gan Cyngor Gwynedd, rhag dyblygu'r gwaith. Ni dderbyniwyd y rhaglen, y Clerc i holi eto.
- 3.17** Nodwyd fod ffordd Dob angen ei dorri ar frys, Cyng. Dafydd Owen wedi cysylltu hefo'r Adran Briffyrdd. Y Clerc i ofyn am ddiweddariad.
- 3.18** Llauer o ddogfennau swyddogol wedi cael ei storio yn y Ganolfan yn Nhregarth ac yn swyddfa Partneriaeth Ogwen, trefnwyd noson i fynd drwy'r dogfennau. Y Clerc i fynd ymlaen i lunio Cofrestr Asedau. Y Clerc hefyd i cysylltu gyda'r Cofrestra Tir ynglyn a'r tir ym Mhont Tŵr, Pen Gamfa, ac y Maes Parcio ger ysgol Bodfeurig.

#### **4. Gohebiaeth**

Pawb wedi cael copio'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Gorffennaf 2019'

**Cyflwynwyd:** Amcanbris Lloches Bws Llandygai – wedi ei drafod uchod (eitem 3.1).

#### **Cyflwynwyd:**

Cyfarfod Gwobryio Blynyddol Ysgol Dyffryn Ogwen – Penderfynodd y Cyngor i gyfrannu £200 eto eleni.

#### **5. Gwaith y mis**

- 5.1** Llwybr rhif 26 – Ffordd Tan y Bwlch tuag at y Chwarel – Adroddwyd fod yno wartheg ar hyd y llwybr yn gwrthod symud i gerddwyr. Y Cyngor yn pryderu yn fawr, yn enwedig yn dilyn y newyddion diweddar ynglŷn a pheryglon gwartheg yn siargio am gerddwyr ar hyd llwybrau, a dynes yn gael ei anafu yn ddifrifol ar lwybr yng Nghapel Curig. Cyng. Dafydd Owen i gysylltu gyda'r swyddog llwybrau yn Nghyngor Gwynedd. Y Clerc i holi'r adran gyfreithiol yn y Cyngor am hawliau pori ar y ffridd. Nodwyd efallai y byddai arwyddion i rybuddio o gymorth i'r cerddwyr.
- 5.2** Adroddwyd fod yno swyddogion diogelwch ger fynediad safle Bryn Cegin, ac eu bod yno 24 awr o phob dydd. Y Clerc i gael fwy o fanylion drwy cysylltu gyda Cyngor Gwynedd.
- 5.3** Nodwyd pryderon y Cyngor ynglŷn a chyflwr ffordd Sling, mae cyflwr y ffordd nawr yn berygl mawr, yn enwedig i feicwyr. Y Clerc i gysylltu gyda Steffan Jones yn yr adran Priffyrdd a'r aelod cabinet, Cyng. Gareth Griffiths, ar frys.
- 5.4** Adroddwyd bod cyflwr Eglwys St Anns yn warthus, a bod yno goed y tyfu drwy'r adeilad ac yn y twr. Credwn fod hwn yn berygl mawr ac yn fater iechyd a diogelwch difrifol. Y Clerc i cysylltu gyda'r adran Iechyd a Diogelwch yn Cyngor Gwynedd.

#### **6. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr**

**Canolfan Tregarth** – Ffair Haf yr ysgol feithrin wedi cael ei gynnal yn ddiweddar, ac wedi bod yn llwyddiannus iawn. Dim byd arall i'w adrodd.

**Ysgol Llandegai** – Ymchwiliad swyddogol yr Ysgol wedi gael ei gwblhau, ac wedi cael canlyniadau da iawn ymhob agwedd. Y Clerc wedi danfon llythyr i'w llongyfarch, ac wedi derbyn ymateb yn diolch am ein llythyr caredig.

## **7. Cyfraniadau Mynwentydd 2019-20**

Cytunwyd y Cyngor i rhoi cyfraniad o £900 yr un tuag at y tair fynwent – Eglwys St Anns, Eglwys y Gelli ac Eglwys St Tegai.

## **8. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**

**8.1.** Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Mehefin.

**8.2.** Rheoli Risg: Dim i'w ystyried ar hyn o bryd. Adolygu'r ddogfen newydd 'Cofrestr Rheoli Risg' ymhob cyfarfod.

**8.3** Cylchredwyd y dogfennau canlynol ym mis Mehefin, a cytunwyd y Cyngor i fabwysiadwy'r holl ddogfennau yn ystod y Cyfarfod:

- (a) Rheolau Sefydlog
- (b) Rheoliadau Ariannol
- (c) Cofrestr Rheoli Risg
- (ch) Cod Ymddygiad
- (d) Model Broctocol Datrysiadau Lleol

## **9. Sedd Wag yn Ward Tregarth**

Wedi derbyn un cais am y sedd gan Lowri Jones. Yn dilyn pleidlais, roedd yr ymgeisydd yn llwyddiannus, y Clerc i wahodd Lowri Jones i'r cyfarfod nesaf.

## **10. Taliadau**

Dim taliadau.

## **11. Penderfyniadau Cynllunio**

### **C15/0966/16/MG**

Tir ger Pentwmpath, Llandygai  
Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer  
codi 15 tŷ gan gynnwys 5 tŷ  
fforddiadwy

**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau drosodd

### **C18/0571/16/HY**

Llys y Gwynt, Bangor  
Arwyddion amrywiol wedi ei goleuo  
ac heb eu goleuo

**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau drosodd

**NP3/16/28**

Ogwen Falls Snack Bar, Nant Ffrancon, Bethesda

Codi monopolyn 15m o uchder wedi'i gladio â choed

**Penderfyniad:**Cais wedi ei gofrestru

**C18/0169/16/CR**

Fferm Cororion, Lon y Wern, Tregarth Dymchwel estyniad unllawr presennol (ôl-weithredol) a gosod estyniad yn ei le

**Penderfyniad:**Cais wedi ei gofrestru

**C18/0767/25/LL**

Coed Wern, Glasinfryn

Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety, adeilad derbynfa, a chreu 2 nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio ffyrdd mynediad cysylltiedig a meysydd parcio, tirweddu a gwaith cysylltiedig eraill.

**Penderfyniad:** Holl ymghynghoriadau drosodd

**C19/0105/16/LL**

Clwb Criced Bangor, Ffordd Llandygai, Llandygai

Dymchwel yr adeilad presennol sy'n cael ei ddefnyddio gan y clwb criced a chodi adeilad newydd yn ei le

**Penderfyniad:**Holl ymgyngghoriadau drosodd

**C19/0236/16/LL**

ZipWorld, Chwarel y Penrhyn

Newid defnydd tir ar gyfer gweithgareddau cartio gyfochrog a'r ffordd bresenno lynchyd a chodi clawdd gwahanu

**Penderfyniad:**Caniatawyd gydag amodau

**C19/0499/16/LL**

Ty Melin, Dob

Codi lolfa haul newydd

**Penderfyniad:**Caniatawyd gydag amodau

## **12.Ceisiadau Cynllunio**

Dim.

### **13. Unrhyw fater brys arall**

**Gwasanaeth Bws 68-76-76a** – Nodwyd fod amserlen y bws yn gael ei newid yn ddi-rybudd a heb hysbysu y Cyngor nag y defnyddwyr ar y 22ain o Orffennaf. Cyng. Dafydd Owen ac y Clerc i cysylltu gyda Dafydd Wyn Williams, Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt ailystyried.

**Yes Cymru** – ymgyrch annibynnuaeth i Gymru – i'w gynnwys ar agenda'r cyfarfod nesaf.